# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Mrs Puddleducks**

**Canolfan Adnoddau Gymunedol Rassau Cyf**
**Heol yr Ysgol**
**Rasa**
**Glynebwy**
**NP23 5PP**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/05/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Ddydd Mrs Puddleducks

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Canolfan Adnoddau Gymunedol Rassau Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 60 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nodi â Llaw<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Yn Gweithio Tuag Ato |

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19; felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r feithrinfa yn canolbwyntio'n sylweddol ar y plentyn, ac mae pwyslais cryf ar gyfraniad y plant ac ar ymgynghori â nhw. Mae'r plant yn hapus iawn ac yn gyfforddus yn eu hamgylchedd, ac maent yn meithrin cydberthnasau cynnes â'r staff. Mae'r staff yn broffesiynol ac yn ymatebol, ac maent yn rhoi sylw i'r plant. Mae polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i gadw'r amgylchedd yn ddiogel ac yn lân, ac mae'r staff yn rhoi'r rhain ar waith yn dda. Mae'r trefniadau arwain a rheoli yn dda iawn ac mae'r staff yn fodlon yn eu gwaith. Drwy ymgynghoriadau â'r rhieni, y plant a'r staff, cânt gyfle i gyfrannu at ddatblygu'r gwasanaeth. Caiff y feithrinfa ei chynnal a'i chadw i safon dda iawn, ac mae'n hybu chwarae a dysgu'r plant yn eithriadol o dda. Mae llawer o brofiad gan yr unigolyn cyfrifol, ac mae'n drefnus iawn ac yn benderfynol o ddarparu gwasanaeth rhagorol. Mae'r staff yn llawn cymhelliant ac yn rhannu'r ethos cadarnhaol hwn.

## Llesiant

Mae teganau a chyfarpar chwarae ar gael yn hawdd i'r plant. Mae eu llais yn bwysig o ran cynllunio eu chwarae yn unol â'u syniadau neu eu diddordebau. Er enghraifft, gwelsom fasgedi caneuon a llwyau pren gyda lluniau o ganeuon arnynt, sy'n helpu'r plant nad ydynt yn siarad i wneud dewisiadau am y caneuon y maent am eu clywed. Mae'r plant yn dylanwadu ar y fwydlen drwy sesiynau blasu bwydydd. Gallant hefyd fynegi eu syniadau a'u barn yn ystod amser cylch. Roedd y plant yn helpu i ddatblygu'r ardal awyr agored. Mae'r dewisiadau a wnaed ganddynt, gan gynnwys canolfan gerddoriaeth, mainc ffrindiau, mainc gwaith a wal ddŵr yn sicrhau bod eu cyfnod chwarae yn yr awyr agored yn ysgogol ac yn hwyl. Roedd y clwb ar ôl ysgol yn trafod ei bolisi ei hun ar fwlio ac ymddygiad ac yn ei roi ar waith.

Mae'r plant yn hapus iawn, wedi setlo ac yn gallu ymlacio. Mae'r polisi setlo a'r system gweithwyr allweddol yn helpu'r plant i ddod i arfer â'u hamgylchedd, y trefniadau a'r staff. Mae adnoddau gan gynnwys llyfrau, gemau a cryno-ddisgiau cerddorol yn adlewyrchu ac yn dathlu cefndiroedd diwylliannol amrywiol y plant er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi. Caiff gwaith y plant ei werthfawrogi a'i arddangos er mwyn meithrin ymdeimlad o berthyn a hunan-barch. Mae'r plant yn defnyddio adnoddau sy'n eu helpu i ddeall eu hemosiynau eu hunain ac emosiynau pobl eraill, a sut i gyfleu'r rhain yn briodol.

Mae'r plant yn chwarae yn dda iawn gyda'i gilydd, gan ddangos amynedd a pharch at eu ffrindiau. Maent yn ymateb yn dda i'r staff ac yn dilyn cyfarwyddiadau syml. Maent yn meithrin eu sgiliau cymdeithasol ac yn gwneud ffrindiau. Er enghraifft, gofynnodd un o'r plant i blentyn arall a allent gymryd troeon wrth fynd ar y beic. Llwyddodd y plant i drafod sut y byddai hyn yn digwydd, heb orfod gofyn am help gan y staff. Mae'r plant yn dweud ‘please’ (os gwelwch yn dda) a ‘thank you’ (diolch) heb i neb ofyn iddynt wneud hynny, ac maent yn awyddus i helpu ei ffrindiau.

Mae'r plant yn hapus iawn wrth chwarae ac yn mwynhau'r ardal awyr agored. Maent yn canolbwyntio'n dda, er enghraifft, wrth ddysgu sut i bedlo treic. Mae llawer o luniau o'r plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau llawn hwyl, er enghraifft, lluniau sy'n dangos y plant yn gwenu wrth ddathlu ‘Holi’ ar ôl iddynt baentio drostyn nhw eu hunain a'u hamgylchedd gan ddefnyddio amrywiaeth o baent lliwgar. Ysgrifennodd un rhiant fod ei blentyn “doesn’t stop talking about the water wall” (yn siarad am y wal ddŵr yn ddi-stop).

Mae'r plant yn dysgu sut i fod yn annibynnol. Mae'r feithrinfa'n arfer y dull “Rwy'n annibynnol” drwy annog y plant i wneud cymaint â phosibl drostyn nhw eu hunain yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Mae'r plant hŷn yn golchi ac yn sychu eu dwylo, yn rhoi eu heiddo i ffwrdd, yn tacluso ac yn datrys problemau wrth chwarae. Mae cyfleoedd chwarae yn eu helpu i feithrin eu hyder, ac mae hyn yn ei dro yn eu helpu i ddysgu sgiliau newydd.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn rhoi gweithdrefnau ar waith er mwyn cadw'r plant yn ddiogel a hybu eu datblygiad a'u llesiant, gan gynnwys gweithdrefnau COVID-19 mewn perthynas â glanhau, cadw pellter cymdeithasol a gwneud yn siŵr bod y plant yn diheintio eu dwylo'n rheolaidd. Mae'r staff yn ymwybodol o alergeddau'r plant, yn ogystal â'u gofynion deietegol a'u hanghenion meddygol. Mae gan y staff ddealltwriaeth glir o'r gweithdrefnau diogelu yn ogystal â'u cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel. Maent yn cwblhau cofnodion yn ymwneud â damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth yn briodol. Mae'r staff yn annog ymarfer corff dan do ac yn yr awyr agored gan hybu llesiant corfforol y plant. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân â'r plant yn rheolaidd, ac yn helpu'r plant i ddeall ffyrdd iach o fyw drwy hybu bwyta'n iach, gofal personol, diogelwch a meithrin cydberthnasau da.

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda iawn o anghenion y plant. Maent wedi cael hyfforddiant i nodi a rheoli ymddygiadau'r plant ar wahanol gamau yn eu datblygiad. Mae'r staff yn trin y plant yn garedig ac mewn modd digynnwrf, gan roi strategaethau rheoli ymddygiad priodol ar waith, er enghraifft, drwy ddefnyddio sticeri gwobrwyo. Maent yn darparu gweithgareddau sy'n briodol ar gyfer galluoedd unigol y plant ac yn annog chwilfrydedd y plant. Mae ganddynt gydberthnasau da â'u cydweithwyr ac maent yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd. Drwy hyn, sicrheir bod y plant yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi'n briodol bob amser.

Mae gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i nodi anghenion unigol y plant ac i gynllunio cyfleoedd dysgu priodol. Maent yn trefnu ardaloedd i annog y plant i fod yn chwilfrydig ac i ddewis sut maent am chwarae. Mae ganddynt adnoddau cynllunio, arsylwi ac asesu effeithiol iawn, ac maent yn eu defnyddio'n dda. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar reoli chwarae mentrus, ac maent yn helpu'r plant i wneud penderfyniadau a meithrin eu hyder. Er enghraifft, roedd un o'r plant a oedd yn dysgu sut i fynd ar dreic yn dilyn cyfarwyddiadau'r staff yn ofalus wrth fynd i lawr llethr, gyda'r staff yn asesu'r risg/budd i'r plentyn yn ofalus. Mae arweinydd pob ystafell wedi cael hyfforddiant ar sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu er mwyn helpu'r plant i gyfathrebu. Caiff cynlluniau dysgu unigol eu datblygu ar y cyd â chydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol pan fo angen.

## Yr Amgylchedd

Mae'r feithrinfa yn groesawgar iawn i'r plant, yn lân ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n addas. Mae pob aelod o'r staff yn rhoi gweithdrefnau ac asesiadau risg ar waith yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i gadw plant, staff a'r cyhoedd yn ddiogel. Mae'r adeilad yn ddiogel er mwyn atal pobl heb awdurdod rhag dod i mewn iddo. Mae'r staff yn deall pwysigrwydd dilyn gwiriadau a gweithdrefnau diogelwch dyddiol. Maent yn cwblhau asesiadau risg o'r prif ystafelloedd a'r ardaloedd awyr agored ac yn galluogi'r plant i gymryd rhan mewn chwarae mentrus drwy roi cymorth priodol iddynt a'u goruchwylio'n briodol. Mae'r unigolyn sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi agor prif ystafell arall ar gyfer y babanod er mwyn sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol. Caiff y ffurflenni damweiniau a digwyddiadau eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn nodi unrhyw risgiau neu broblemau cynnal a chadw sy'n dod i'r amlwg ac ymateb iddynt.

Mae'r feithrinfa yn olau ac yn fawr, gan roi digon o le i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r prif ystafelloedd wedi'u haddurno mewn lliwiau niwtral tawelol ac maent yn cynnwys llawer o ddeunyddiau naturiol a goleuadau mwyn. Mae'r ardaloedd cysgu wedi'u trefnu'n dda ac yn dawel, ac mae gweithdrefnau ar waith i fwrw golwg ar y plant sy'n cysgu. Mae'r toiledau yn lân ac yn hygyrch i'r plant. Mae ardal chwarae awyr agored gyffrous ar gael i'r plant, a gynlluniwyd gan ddefnyddio cyfarpar pren sy'n ystyriol o'r amgylchedd, sy'n ychwanegu at gyfleoedd dysgu a chwarae. Mae pob rhan o'r adeilad yn hygyrch i bobl ag anableddau.

Mae'r teganau a'r cyfarpar chwarae o ansawdd uchel. Er enghraifft, mae adnoddau chwarae wedi'u gwneud o bren a deunyddiau naturiol. Mae amrywiaeth dda o adnoddau amlddiwylliannol, sy'n annog y plant i ddeall diwylliannau eraill ac i'w gwerthfawrogi. Mae'r systemau ar gyfer monitro adnoddau yn sicrhau eu bod o safon uchel. Mae datblygiadau pellach wedi'u cynllunio ar gyfer y feithrinfa ac wedi'u nodi yn yr adolygiad o'r gwasanaeth.

## Arwain a Rheoli

Mae arweinyddiaeth ardderchog a pholisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith i wneud yn siŵr bod y feithrinfa yn gweithredu'n unol â safonau uchel. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth glir o'u rôl a'u cyfrifoldebau ac maent yn ymgymryd â nhw'n fedrus iawn.

Mae gweledigaeth gadarn ar gyfer y gwasanaeth, sy'n cael ei chyfleu'n dda i bob aelod o'r staff sy'n cyfrannu at y nodau hyn ac yn eu cefnogi. Mae'r person â chyfrifoldeb yn cwblhau adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal. Mae'r ymgyngoriadau a gynhelir â'r rhieni, y staff a'r plant yn ystyrlon ac yn arwain at ddatblygu'r gwasanaeth. Er enghraifft, wrth ddatblygu gardd i'r plant hŷn, daeth yn amlwg bod angen gardd ar wahân i'r babanod. Nodwyd bod y Gymraeg yn faes sydd angen ei wella.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn defnyddio strategaethau effeithiol i gefnogi'r staff ac i sicrhau bod y feithrinfa yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae gweithdrefnau recriwtio a sefydlu yn drylwyr ac yn sicrhau bod y staff wedi'u paratoi i ymgymryd â'u gwaith i safon dda. Cynhelir gwiriadau hanes cyflogaeth er mwyn cael esboniad o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth, ond ni chaiff y rhain eu cofnodi ar hyn o bryd. Caiff y staff sesiynau goruchwylio rheolaidd, ac mae'r cofnodion yn dangos bod y rhain yn ystyrlon ac yn cefnogi datblygiad proffesiynol. Er enghraifft, roedd y staff sy'n gweithio gyda'r babanod wedi cwblhau hyfforddiant penodol ar gyfer oedran y plant yn eu gofal, ac roedd yr aelod o'r staff a oedd yn cefnogi plant ag anghenion ychwanegol wedi cwblhau hyfforddiant ar awtistiaeth. Mae digon o staff i weithio yn ystod cyfnodau gwyliau a phan fydd staff yn absennol o ganlyniad i salwch neu hyfforddiant. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u bod yn hyderus yn eu rôl.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio gyda'r rhieni i wella dysgu'r plant ac maent wedi meithrin partneriaethau da. Mae'r feithrinfa wedi meithrin cysylltiadau cadarn â'r gymuned a chydberthnasau cadarnhaol â gweithwyr proffesiynol eraill. Er enghraifft, roedd yn cynnal cyfarfodydd â'r awdurdod lleol i wneud yn siŵr nad oedd unrhyw darfu ar fentrau fel y raddfa mesur amgylcheddol, y cynllun cyn-ysgol iach a'r rhaglenni lleferydd ac iaith yn ystod y cyfnod clo.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Cofnodi hanes cyflogaeth llawn yn ffeiliau'r staff.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni |
| --- |

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
| --- | --- |
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/07/2021